



Y Casglwr

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

SWYDDOGION

Cadeirydd:

E. Wyn James,

Ysgrifennydd:

Maredudd ap Huw
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion.
(01970) 632863

Trysorydd:

Gwyndaf Roberts,
Cae'r Hafod, Maes Caled,
Dolgellau LL40 1UF

Golygydd:

Tanycastell, Llanuwchllyn,
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA
(01678) 540652

e-bost: tanycastell@yahoo.com

CYNNWYS

	Tud.
Golygyddol	2
Carthen Pwllheli	3
Y Clychau	5
Ei farf yn llaes a'i wallt yn wyn ...	7
Delweddau'r Diwygwyr (2)	9
O Blas i Blas	11
Trichanmlwyddiant y π	13
Llyfrau William Bulkeley a'i gylch .	15
Ychwanegu at Hanes Penllyn	21
Adolygiadau	22
Gwerthu Llyfrgell D. Tecwyn Lloyd	23

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd
erbyn Ionawr 24

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Miss Anne K. Till (01970) 872077

Golygyddol

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn eithaf cyffrous yn hanes y Gymdeithas gan inni gyhwyn ar wibdeithiau ddechrau'r flwyddyn a chael Diwrnod Agored a Chyfarfod Blynyddol yn Ebrill. Fel y crybwyllwyd yn y rhifyn diwethaf, etholwyd nifer o aelodau newydd a chodwyd Dr Maredudd ap Huw yn Ysgrifennydd yn lle Gwyn Tudur. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo. Bu Gwyn yn y swydd ers Gwanwyn 1993, sef 12 mlynedd. Diolch am ei lafur caled. Bu'n sicrhau presenoldeb y Gymdeithas yn yr Eisteddfod, ac ef oedd yn trefnu'r ddarlith ar y Maes, ef hefyd sydd yn ymwneud â'r Ffair Lyfrau a gynhelir bob Ebrill yn Aberystwyth ac mae am ddal i drefnu'r Ffair. Mae eto yn gymorth mawr imi gan y gallaf droi ato unrhyw adeg am gymorth. Mae cael gweithwyr tebyg yn anadl bywyd i Gymdeithas.

Y Brifwyl

Bu'r stonin yn Eisteddfod y Faenol yn hynod brysur, a chafwyd nifer o aelodau eraill. Bu eich ymateb i'r raffl yn wych. Roedd eich cyfraniadau a'ch rhoddion, sy'n aml yn cael ei gynnwys wrth ddechwyd y bonion, yn fodd i dalu am logi'r stonin a'r holl gostau cynnal yr raffl. Diolch i bawb.

Ffeiriau Llyfrau

Cynhaliwyd dwy eleni eto a hoffwn ddiolch i bawb a'u mynychodd nhw am eu cefnogaeth. Gweler lluniau ar y clawr o'r Ffair yn y Bala. Mae yna gynlluniau ar y gweill i gynnal un ychwanegol mewn rhan arall o Gymru. Beth am ichi wahodd y ffair i'ch ardal chi yn enwedig i dde Cymru?

Y Diwrnod Agored

Bydd Diwrnod Agored nesaf Y Gymdeithas yn cael ei gynnal yn Nhanybwlch ar 22 Ebrill 2006 (gweler y rhag-hysbyseb). Mae'r diwrnod fwy neu lai wedi ei drefnu a cheisiwyd cyflwyno arlwy ysgafn er mwyn gwneud y diwrnod

yn un bywiog a diddorol. Ceir mwy o wybodaeth yn rhifyn y Gwanwyn.

Chwalu Llyfrgell y Diweddar D. Tecwyn Lloyd

Tristwch mawr yn ddiweddar oedd clywed fod llyfrgell y diweddar D. Tecwyn Lloyd, (Cadeirydd cyntaf y Gymdeithas, a barodd yn ei swydd tan ei farwolaeth ddisymwth yn 1992) wedi cael ei gwerthu yn Llundain a Chaer, a nifer o'r llyfrau yn mynd am bris isel iawn. Dyma enghraifft sy'n dangos ei fod yn ddyletswydd arnom i sicrhau cartref da i'n heiddo ar ôl i ni adael y fuchedd hon, er mwyn cadw'r cyfan oddi mewn i Gymru yn lle eu bod yn cael eu chwalu dros y byd a'r betws. Pregethodd Yr Athro Emwritws Iolo Wyn Williams yr union beth yn ei eiriau agoriadol yn Ffair y Gymdeithas yn y Bala fis Medi diwethaf. I'r rhai sydd â chlustiau ganddynt ...

Rhodd Gymorth

Mae'r cannoedd o'r ffurflenni Rhodd Gymorth wedi cael eu dychwelyd ond mae yna draean o'r aelodau heb eu dychwelyd. Pe byddai pawb yn eu hanfon yn ôl, byddem yn cael £1.50 y pen. Yr un hen gân o hyd, dwi'n ofni

Gwibdeithiau y Gymdeithas

Mi fyddwn i'n falch pe byddai aelodau o bob cwr o Gymru'n barod i drefnu rhyw ddwy awr o daith gerdded, neu mewn bws mini, er mwyn inni gael dod i adnabod hanes lleol yn well. Does dim rhaid cael twr. Gallwn wedyn dynnu rhestr er mwyn rhoi gwybodaeth am y gwahanol deithiau yn Y Casglwr ac ar y cyfryngau. Beth amdani?

Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn wyres fach ddau fis oed Gwyndaf Roberts, y Trysorydd. Rydym i gyd yn ymestyn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu yn eu galar.

Enillwyr Raffl Haf Y Gymdeithas

Crochenwaith Porth Meirion: Eleri Davies, Rhandir, Stad Ty'n Rhos, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LQ

Cawg Crisial Cymreig: Mrs. E. Jones, 3, Berllan, Lôn Las, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5BT

Casgliad o Gyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol: Mrs. C. Parry, Bron Ceris, Ffordd Haearn Bach, Penygroes, Caernarfon, LL54 6NY

Cloc ar Lechen: Rhian Gibson, Bryn Awel, Main Rd., Gwaelod y Garth, Caerdydd, CF15 9HJ

Basged o Nwyddau Cymru: John Middleton Williams, 40 Ffordd Colomendy, Dinbych, LL16 5TT

Toelyn llyfrau gwerth £25: Nesta Wyn Jones, Pantglas, Abergeirw, Dolgellau, LL40 2PG

Toelyn llyfrau gwerth £20: Mr. W.D. Davies, Bryn Ifor, Heol Tomos, Sir Gaerfyrddin, SA19 6LB

Toelyn llyfrau gwerth £15: Mrs Eluned Williams, 31 St. Anne's Gardens, Llandudno, LL30 1SD

Toelyn llyfrau gwerth £10: Capt. H. R. Morgan, Flat 12, Roslin Court, Roslin Rd., Prenton, CH43 5TA